# Deufis

**Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi** **Ionawr-Chwefror 2025**




## Oedfaon Ionawr

**(Am wybodaeth ddiweddaraf am oedfaon Brynhafod, gweler y dudalen What's app)**

**Sul 5 Ionawr**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | 10.00 y bore | Gweinidog-Cymun |
| Brynhafod | 10.30 y bore | Ysgol Sul |
| Caersalem | 2.00 y pnawn | Gweinidog-Cymun |
| Noddfa | 5.00 yr hwyr | Oedfa garolau golau cannwyll |

**Sul 12 Ionawr**

| | | |
|---|---|---|
| Bethel | 10.15 y bore | Gweinidog-Cymun |
| Seion ac Aberduar (yn Seion) | 2.00 y pnawn | Gweinidog-Cymun |

**Sul 19 Ionawr**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | 10.00 y bore | Doniau'r eglwys |
| Noddfa | 10.00 y bore | Delyth Morgans Phillips |

**Rhestr Suliau Ionawr yn parhau trosodd**

**Sul 26 Ionawr**

| | | |
|---|---|---|
| Bethel | 10.15 y bore | Gweinidog |
| Aberduar, Seion a Brynhafod (ym Mrynhafod) | 2.00 y pnawn | Gweinidog |

## Oedfaon Chwefror

**Sul 2 Chwefror**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | 10.00 y bore | Gweinidog-Cymun |
| Brynhafod | 10.30 y bore | Ysgol Sul |
| Caersalem | 2.00 y pnawn | Gweinidog-Cymun |
| Noddfa | 3.30 y pnawn | Gweinidog-Cymun |

**Sul 9 Chwefror**

| | | |
|---|---|---|
| Bethel | 10.15 y bore | Gweinidog-Cymun |
| Seion ac Aberduar (yn Seion) | 2.00 y pnawn | Gweinidog-Cymun |

**Sul 16 Chwefror**

| | | |
|---|---|---|
| Noddfa | 9.30 y bore | Gweinidog |
| Aberduar | 11.00 y bore | Gweinidog |

**Sul 23 Chwefror**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | Dim oedfa | |
| Bethel | 10.15 y bore | I'w gyhoeddi |
| Seion a Brynhafod (yn Seion) | 2.00 y pnawn | Rhys Bebb Jones |

**ASTUDIAETH FEIBLAIDD Y CYLCH**
**'Crwydro yng Nghorinth'**

**Y GILFACH**
**HEOL Y GOGLEDD**
**LLANBEDR PONT STEFFAN**

**7.30 AR Y NOSWEITHIAU LLUN CANLYNOL**

**13 IONAWR**
**27 IONAWR**
**10 CHWEFROR**

## GWEITHGAREDDAU'R NADOLIG YN Y CYLCH

### Ysgol Sul Noddfa

Er gwaethaf bywydau prysur aelodau'r Ysgol Sul llwyddwyd i gynnal oedfa Nadolig yn Noddfa wedi ei llunio gan Janet, a braf oedd gweld 25 yn cymryd rhan yn amrywio o bedair i hanner cant oed. Teimlwyd naws hyfryd yr Ŵyl wrth ymlwybro i Fethlehem trwy gyfrwng unawdau, darlleniadau o'r Beibl, gweddïau, adroddiadau a grwpiau canu amrywiol a phawb yn cyflawni eu gwaith yn rhagorol. Roedd brwdfrydedd y plant lleiaf gyda'u offerynnau taro yn codi gwên. Do, bu'n oedfa arall i'w thrysori.

Ar y diwedd talwyd ymweliad gan Siôn Corn (diolch Roy) a bu'n brysur yn dosbarthu anrhegion. Yna bu'r plant a'r oedolion yn mwynhau gwledd arall sef te parti ardderchog wedi ei baratoi gan y rhieni. Wrth droi tuag adre roedd pawb yn uchel iawn eu canmoliaeth wedi derbyn bendith a mwynhad wrth gyd-addoli gyda'r ieuenctid. Gwerthfawrogir y rhoddion i'r Banc Bwyd yn fawr iawn. Bu'r ymateb yn wych.

Diolch yn fawr hefyd i bawb am eu cefnogaeth i'r Ysgol Sul yn ystod y flwyddyn.

Edrychwn ymlaen at gydweithio hapus eto yn 2025.



## ABERDUAR

Cynhaliwyd oedfa Nadolig hyfryd iawn yng Nghapel Aberduar fore Sul 21 Rhagfyr, y rhaglen wedi'i llunio gan Rhiannon a'r aelodau yn cymryd rhan. Adroddwyd stori'r Nadolig trwy holi cwestiwn ac ateb (diolch Lowri ac Anne), y darlleniadau tymhorol gan Lynwen, Gillian ac Emlyn, lledwyd y carolau gan Meryl, Ron, Hywel a Hannelia a'n harwain mewn gweddi gan Lynwen. Roedd y canu'n swynol a'r addoli yn fendithiol.

Wedi hynny parhaodd y dathlu yng Nghartref Maes-y-felin lle cafwyd Cymun i'r deiliaid, gydag aelodau Seion a Noddfa yn ymuno ag aelodau Aberduar yn y gân. Dathlwyd y Nadolig mewn oedfa debyg y Sul cynt yng Nghartref Cwm-aur. Profiad gwir fendithiol oedd rhannu llawenydd yr Ŵyl yn y ddau gartref gofal.  Diolch i bawb a gymerodd ran

## Ysgol Sul Bryn Hafod

Yn dilyn yr oedfa yng Nghartref Maes-y-felin daeth plant Ysgol Sul Bryn Hafod ynghyd ar gyfer eu dathliad Nadolig nhw. Roedd llawr y capel yn llawn gyda chynulleidfa ar yr oriel hefyd. Bu'r disgyblion wrthi ers wythnosau yn paratoi yn ddyfal at yr achlysur drwy ddrama a chân. Buom yn gwrando ar ddatganiad yr angylion yn dweud 'Gogoniant yn y goruchaf i Dduw', yn dilyn Mair, Joseff a'r baban Iesu i'r llety, yn ymuno gyda'r doethion a'r bugeiliaid wrth y crud *ac* yn cael ein dychryn gan y Brenin Herod! Mawr oedd y gymeradwyaeth i'r actorion a'u hyfforddwyr, ac yn dilyn hynny cafwyd wledd yn Neuadd y Pentref ynghyd ag ymweliad gan Siôn Corn. Rhwng popeth roedd hi'n brynhawn hapus a chofiadwy iawn.



**BYDD ADRODDIAD AM DDATHLIAD Y NADOLIG YNG NGHAPEL BETHEL YN DILYN YN RHIFYN NESAF Y DEUFIS**

**COFIWCH AM YR OEDFA GOLAU CANNWYLL YN NODDFA, SUL CYNTAF Y FLWYDDYN, 5 IONAWR AM 5 o'r gloch**